



Rhaglen Gymorth Mathemateg Bellach Cymru

Further Mathematics Support Programme Wales

Tystiolaeth yn cefnogi'r honiadau a wnaed yn y llythyr:

Y pwnc Safon Uwch mwyaf poblogaidd

- Yn ôl y CGC, fel yr adroddwyd yng nghyflwyniad AMSP <https://amsp.org.uk/resource/why-study-maths>, y tri phwnc Safon Uwch mwyaf poblogaidd yn y DU yn 2021 oedd: Mathemateg 97,690 o geisiadau, Seicoleg 71,235 o geisiadau a Bioleg 70,005 o geisiadau.
- Yng Nghymru, fel yr adroddwyd yn <https://www.wjec.co.uk/media/1bzptrur/gce-a-level-final-results-june-2021.pdf>, Mathemateg yw'r mwyaf poblogaidd o hyd gyda'r 3 uchaf yn awr yn cynnwys: Mathemateg 3,931 o geisiadau, Bioleg 3,400 o geisiadau a Chemeg 2,605 o geisiadau.

Prifysgolion lle mae angen Mathemateg Bellach ar gyfer Gradd Mathemateg

- Yn ôl gwefan UCAS y rhain yw Caergrawnt, Durham, Coleg Imperial, KCL, UCL, Rhydychen a Warwick.

Prifysgolion sy'n lleihau eu gofynion mynediad ar gyfer myfyrwyr â Mathemateg Bellach sydd am astudio ar gyfer Gradd Mathemateg

- Y rhain yw Caerfaddon, Bryste, Caint, Lancaster, Leeds, Sussex, Abertawe, Efrog. Nodyn: Dywed Caerfaddon "Os ydych chi'n astudio Safon Uwch mae'n well gennym ni i chi gymryd Mathemateg Bellach Safon Uwch iawn".

Graddau nad ydynt yn fathemateg sy'n disgwyl Mathemateg Bellach Safon Uwch

- O'r myfyrwyr sy'n astudio Cyfrifiadureg yn Rhydychen, mae 97% wedi astudio Mathemateg Bellach Safon Uwch¹. Yn yr un modd, ar dudalen sy'n disgrifio'r gofynion academaidd ar gyfer Peirianeg yng Nghaergrawnt mae'n dweud "Os yw'ch ysgol neu goleg yn gallu cynnig Mathemateg Bellach neu os gallwch gael mynediad ato trwy'r Rhaglen Gymorth Mathemateg Bellach, fe'ch anogir yn *gryf iawn* i astudio hwn"². Mae'r dudalen gyfatebol ar gyfer Economeg yn yr LSE yn dweud "Mae Mathemateg Bellach Safon Uwch hefyd yn ddymunol, ac yn dderbyniol ar gyfer mynediad ar y cyd â Mathemateg ac un pwnc Safon Uwch arall"³. Yn amlwg, nid yw'r rhain yn brifysgolion cyffredin, ond mae'r pwynt bod cyrsiau nad ydynt yn fathemateg hefyd yn rhoi gwerth mawr ar Fathemateg Bellach Safon Uwch yn debygol o ddod yn wir yn llawer ehangach.

Pontio haws rhwng yr ysgol a'r brifysgol ar ôl astudio Mathemateg Bellach

Darparir tystiolaeth yn cefnogi hyn parthed pynciau STEM yn y ddau bapur:

- Lyakhova, S. & Neate, A. (2019) Mathemateg Bellach, dewis myfyrwyr a phontio i brifysgol: rhan 1 - graddau Mathemateg. Addysgu Mathemateg a'i Chymwysiadau: Cylchgrawn Rhyngwladol yr IMA, 38(4), 167-190.
- Lyakhova, S. & Neate, A. (2021) Mathemateg Bellach, dewis myfyrwyr a phontio i'r brifysgol: rhan 2—graddau STEM nad ydynt yn ymwneud â mathemateg. Addysgu Mathemateg a'i Gymwysiadau: Cylchgrawn Rhyngwladol yr IMA, 40(3), 210-233.

Mathemateg Ychwanegol yn cefnogi myfyrwyr sy'n trosglwyddo o ddewis TGAU i Safon Uwch Mathemateg a Mathemateg Bellach

Darperir tystiolaeth i gefnogi hyn yn y papur:

- Tanner, H., Lyakhova, S., & Neate, A. (2016). Dewis Mathemateg Bellach. Cylchgrawn Addysg Cymru, 18(2), 23-40.

¹<https://www.ox.ac.uk/admissions/undergraduate/courses/course-listing/computer-science#content-tab--3>

²<https://www.admissions.eng.cam.ac.uk/guide/requirements>

³<https://www.lse.ac.uk/study-at-lse/Undergraduate/Degree-programmes-2022/BSc-Economics>